Teitl adroddiad thematig: *Materion Ariannol: darpariaeth addysg ariannol i bobl ifanc rhwng saith ac 19 oed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru – Mai 2011*

Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Ysgol Gynradd y Coed-duon, Caerffili

Cyd-destun

Ysgol gynradd fawr yw Ysgol Gynradd y Coed-duon, sydd wedi'i lleoli yn rhanbarth Islwyn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae 443 o ddysgwyr cyfwerth ag amser llawn ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae gan 16% o'r dysgwyr hyn hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Fe wnaeth y pennaeth a'r dirprwy bennaeth, gyda chefnogaeth dda gan bob un o'r staff, drefnu rhaglen fanwl o weithgareddau wedi'u cynllunio'n ofalus ar draws y cwricwlwm. Cynlluniwyd y gweithgareddau hyn i ddatblygu ymwybyddiaeth ariannol dysgwyr, yn ogystal â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i wneud penderfyniadau ariannol annibynnol a chadarn.

Gweithredu

Mynychodd y dirprwy bennaeth sesiwn hyfforddi addysg ariannol wedi'i chynnal gan Uned Addysg Ariannol Cymru ac wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar ôl dychwelyd i'r ysgol, gwnaed trefniadau i bob athro gael hyfforddiant, gan ganolbwyntio ar arfer orau a datblygu'r ddarpariaeth yn yr ysgol. Yn ystod yr hyfforddiant, trafododd athrawon sut i ddatblygu eu rhaglen addysg ariannol gan ennyn diddordeb pob dysgwr. Nododd Uned Addysg Ariannol Cymru ystod o adnoddau sydd fwyaf addas ar gyfer yr ysgol a'i dysgwyr.

O ganlyniad i'r hyfforddiant:

- cymerodd pob un o'r dysgwyr ran mewn 'Wythnos Arian' yn ddiweddar. Ar ddechrau'r wythnos, llenwyd holiadur gan fwyafrif y dysgwyr i alluogi athrawon i asesu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Defnyddiodd athrawon y wybodaeth hon i gynllunio cynllun gwaith a chynlluniau gwersi manwl ac i ddarparu ystod o weithgareddau yr ymgymerwyd â nhw yn ystod yr 'Wythnos Arian'; a
- thrwy gydol y flwyddyn, trefnwyd ystod o weithgareddau ychwanegol i gefnogi'r wythnos ffocws. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau menter a chodi arian ar gyfer elusennau. Mae'r cynllun gwaith yn galluogi pob un o'r athrawon i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynllunio ar gyfer dilyniant. Mae adborth gan ddysgwyr yn helpu'r ysgol i wneud yn siŵr bod y gweithgareddau yn heriol ac yn bodloni eu hanghenion.

Deilliannau

Mae gan y dysgwyr wybodaeth dda am faterion ariannol, er enghraifft pwysigrwydd cynilo, ac am y gwahanol fathau o ddyled a chredyd. Mae rhai dysgwyr hŷn hefyd wedi sefydlu cwmni cydweithredol ffrwythau a llysiau i ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau addysg ariannol mewn cyd-destun dyddiol go iawn. Mae llawer o ddysgwyr yn rhannu eu medrau rheoli arian gwell gyda'u teuluoedd ac yn cyfrannu at benderfyniadau ariannol o ddydd i ddydd.